ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) – Asesiad Effaith Integredig** |
| **Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm)**: | **Timau Polisi a Bil Diogelwch Tommeni Glo** |
| **Adran:** | **Newid Hinsawdd a Cynaliadwyedd Amgylcheddol** |
| **Pennaeth yr Is-adran/Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):** | **Chris Jones – Is-adran Etifeddiaeth Mwyngloddio a Diogelwch Cronfeydd Dwr** |
| **Ysgrifennydd y Cabinet/Gweinidog sy'n gyfrifol:** | **Huw Irranca-Davies AS** |
| **Dyddiad Dechrau:** | **5/09/2024** |

## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

### Cyd-destun

Ym mis Chwefror 2020, yn dilyn stormydd Ciara a Dennis, cafwyd cyfres o lithriadau tomenni glo yng Nghymru, gan gynnwys llithriad mawr o domen nas defnyddir yn Tylorstown. Mae'r llithriadau hyn yn dangos risgiau posibl tomenni nas defnyddir i gymunedau a seilwaith.

Sefydlodd cyn Brif Weinidog Cymru, Mark Drakeford AS, y Tasglu Diogelwch Tomenni Glo yn gynnar yn 2020. Rhoddwyd rhaglen eang o waith i'r tasglu, gan gynnwys adolygu diogelwch tomenni glo ledled Cymru. Ym mis Hydref 2020, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad annibynnol o'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â diogelwch tomenni glo yng Nghymru a gwneud argymhellion ar gyfer ei diwygio. Dechreuodd yr adolygiad ar 2 Tachwedd 2020 a chyflwynwyd yr adroddiad ar 23 Mawrth 2022.

Cyhoeddwyd y Papur Gwyn ar Ddiogelwch Tomenni Glo (Cymru), a ymgynghorodd ar gynigion y Bil, gan Lywodraeth Cymru ar 12 Mai 2022. Defnyddiodd argymhellion Comisiwn y Gyfraith a dadansoddiad pellach a wnaed gan Lywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd ymatebion i'r ymgynghoriad Papur Gwyn ym mis Tachwedd 2022. Gofynnodd y Papur Gwyn a ddylai'r cynigion ar gyfer y Bil fod yn berthnasol i domenni glo a thomenni nad ydynt yn domenni glo (er enghraifft, tomenni sy'n cynnwys gwastraff o ddiwydiant cloddio metel Cymru). Roedd mwyafrif yr ymatebion (88%) yn cytuno. Felly, mae darpariaethau'r Bil yn berthnasol i domenni glo a thomenni nad ydynt yn domenni glo.

Roedd consensws eang o'r ddau ymgynghoriad nad oedd y ddeddfwriaeth yn ymwneud â thomenni glo nas defnyddir, Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969 (Deddf 1969) yn addas i'r diben mwyach. Cafodd ei deddfu ar adeg pan oedd gan Gymru ddiwydiant glo gweithredol.

I grynhoi, mae Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) (y Bil):

- yn sefydlu Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru (yr Awdurdod) fel corff corfforaethol. Ei brif amcan wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Bil yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd;
- yn gwneud darpariaeth ar gyfer asesu, cofrestru a monitro tomenni nas defnyddir;
- yn cynnwys darpariaethau sy'n galluogi'r Awdurdod i ymdrin ag ansefydlogrwydd tomenni a bygythiadau i ansefydlogrwydd tomenni. Mae hyn yn cynnwys pwerau i'w gwneud yn ofynnol i berchennog tir gyflawni gweithrediadau ac i'r Awdurdod gyflawni gweithrediadau ei hun, a darpariaethau cysylltiedig mewn perthynas â thaliadau mewn cysylltiad â gweithrediadau o'r fath; ac
- yn cynnwys darpariaethau atodol, gan gynnwys pwerau mynediad i'r Awdurdod, darpariaethau rhannu gwybodaeth a phwerau i fynnu

gwybodaeth, ac mae'n creu troseddau cysylltiedig i gefnogi gorfodi'r gyfundrefn.

**Tueddiadau, heriau a chyfleoedd tymor hir**

Yn ôl y *Special Report on Global Warming of 1.5C* (Hydref 2018) a gyhoeddwyd gan y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd, mae cryn dystiolaeth y byddai cyfyngu cynhesu byd-eang i rhwng 1.5°C a 2°C yn ffrwyno risgiau cynnydd mewn glawiad trwm mewn sawl rhanbarth lledred uchel, gan gynnwys Gogledd Ewrop.

Mae'r State of UK Climate Report (Gorffennaf 2024) wedi dangos yn ddiweddar fod glawiad y DU wedi cynyddu ychydig yn ystod y degawdau diwethaf. Yng Nghymru, adroddodd yr asesiad risg a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Annibynnol ar Newid Hinsawdd gynnydd bach mewn glaw cymedrig blynyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan ragweld y disgwylir i lawiad ddwysáu yn ystod y gaeaf yn y dyfodol, gan arwain at y tebygolrwydd o lifogydd yn effeithio ar seilwaith, busnesau a chartrefi.

Tynnodd datganiad Llywodraeth Cymru ar ddiogelwch tomenni glo (Chwefror 2021) sylw at yr anawsterau o ran lleihau'r risg o fethiannau llethr ger anheddau, gan gydnabod nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn addas i'r diben nac yn ddigon cadarn mewn perthynas ag archwilio a chynnal a chadw. Cyfeiriwyd at y diffygion hyn yn yr adroddiad sy'n dod ag adolygiad annibynnol Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth diogelwch tomenni glo i ben.

Mae'r Bil yn mynd i'r afael â'r diffygion hyn drwy gyflwyno cyfundrefn ragweithiol a fydd yn diogelu lles pobl, cymunedau a seilwaith allweddol Cymru drwy sefydlu corff cyhoeddus newydd a fydd â swyddogaethau mewn perthynas ag asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni nas defnyddir.

**Atal**

Mae'r Bil yn ataliol ei natur, wedi'i ganoli ar gyfundrefn ragweithiol yn hytrach nag adweithiol, gan ragweld gofynion monitro parhaus ar gyfer tomenni nas defnyddir cofrestredig. Bydd tomenni nas defnyddir sy'n peri risg uwch yn cael eu harchwilio'n amlach (tomenni categori 1 a 2) a bydd yr holl domenni nas defnyddir yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol i fynd i'r afael ag ansefydlogrwydd tomenni a bygythiadau i ansefydlogrwydd tomenni.

Nod craidd y Bil yw atal tomenni nas defnyddir rhag bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod angen i'r Awdurdod weithio i leihau'r tebygolrwydd y bydd tomenni nas defnyddir yn mynd yn ansefydlog ac yn bygwth lles pobl. Gall effaith tirlithriadau fod yn drychinebus, gyda difrod sylweddol i gymunedau, yr amgylchedd a seilwaith yn arwain at gostau atgyweirio uchel y gellir eu hosgoi drwy sefydlu system archwilio a chynnal a chadw gadarn.

**Integreiddio**

Mae diogelwch tomenni nas defnyddir yn flaenoriaeth drawsbynciol yn Llywodraeth Cymru, yn enwedig gan y gallai effeithiau llithriadau tomenni nas defnyddir arwain at oblygiadau, gan gynnwys i dai, iechyd, trafnidiaeth, cyfleustodau, cynllunio a'r amgylchedd.

Cynigiodd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru fesur peryglon i gategoreiddio tomenni ac ymgynghorwyd ar fatrics lefel peryglon cymhleth gan ystyried grwpiau derbyn (e.e. tai, cymunedau) a lefel y peryglon (e.e. uchel, isel). Mae datblygu polisi pellach wedi llywio dull gweithredu mwy gweithredol i osgoi cymhlethdod; felly, mae'r Bil yn cyflwyno dau gam cydgloëdig i asesu tomenni, sef asesiad desg rhagarweiniol i gasglu gwybodaeth gychwynnol am y domen gan hysbysu'r Awdurdod a oes angen asesiad llawn.

**Cydweithio**

Yn 2020, mewn ymateb i Tylorstown, sefydlodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU Dasglu Diogelwch Tomenni Glo, gan weithio ar y cyd â'r Awdurdod Glo, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac awdurdodau lleol i gyflwyno rhaglen o waith gan gynnwys adolygu diogelwch tomenni glo ledled Cymru, ac archwilio a chynnal a chadw tomenni â sgôr uwch.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru hefyd i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad annibynnol o ddeddfwriaeth diogelwch tomenni glo. Adlewyrchwyd argymhellion yr adolygiad ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer y Bil.

Ers 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r Awdurdod Glo i archwilio tomenni glo nas defnyddir categori C[1] unwaith y flwyddyn a thomenni glo nas defnyddir categori D ddwywaith y flwyddyn. Yn 2023, dechreuodd yr Awdurdod Glo archwilio pob tomen lo nas defnyddir categori B. Helpodd hyn i nodi unrhyw waith cynnal a chadw yr oedd angen i awdurdodau lleol ei wneud.

O ganlyniad, mae gan Lywodraeth Cymru wybodaeth am niferoedd, lleoliad a pherchnogaeth tomenni glo nas defnyddir yng Nghymru. Cyhoeddwyd mapiau yn cynnwys lleoliad tomenni glo nas defnyddir categori C a D ar 14 Tachwedd 2023.

**Cyfranogiad**

Roedd yr ymatebwyr i'r Papur Gwyn yn cynnwys unigolion preifat, sefydliadau amrywiol, cynrychiolwyr etholedig, cwmnïau preifat, academyddion, cyrff proffesiynol ac awdurdodau lleol. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu wedi'u targedu yn ystod y cyfnod ymgynghori 12 wythnos pan gyflwynodd Llywodraeth Cymru sawl cyflwyniad ar y Papur Gwyn, gan ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid. Bob mis, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ymgysylltu â'r Grŵp Technegol Diogelwch Tomenni Glo, sy'n cynnwys arbenigwyr ac ymarferwyr medrus.

Ym mis Tachwedd 2023, pan ryddhawyd data ar domenni glo nas defnyddir categori C a D i'r parth cyhoeddus, drwy Fap Data Cymru, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gyfres o sesiynau rhannu gwybodaeth ar gyfer partïon yr effeithiwyd arnynt gan

---

[1] Mae'r system ddosbarthu bresennol yn rhestru tomenni o gategori **D** i gategori **R**. Meini prawf yn ôl categori: D Potensial i beri risg i fywyd neu eiddo, hanes o symud/arwyddion o ansefydlogrwydd C Potensial i beri risg i fywyd neu eiddo, dim hanes o symud/arwyddion o ansefydlogrwydd B Annhebygol o beri risg i fywyd / eiddo A Tomen fach neu domen sydd wedi'i hadfer R Lleoliad tomen hanesyddol – sydd bellach wedi'i symud neu ei lefelu ac yn aml wedi'i hadeiladu drosti.

leoliadau'r tomenni, a chynhaliodd ymgyrch hysbysebu ar Facebook i godi ymwybyddiaeth o'r digwyddiadau.

**Effaith**

Ystyriodd Llywodraeth Cymru argymhelliad Comisiwn y Gyfraith ynghylch sefydlu corff arbenigol a gwneud dadansoddiad pellach i benderfynu a ddylai'r corff fod yn sefydliad sy'n bodoli eisoes neu'n sefydliad newydd. Wrth asesu'r dull mwyaf priodol o gyflwyno'r gyfundrefn newydd, ystyriwyd chwe maen prawf: atebolrwydd, annibyniaeth, arbenigedd, cylch gwaith, gwerth am arian a hyder. Daeth y dadansoddiad i'r casgliad nad oedd unrhyw gorff presennol yn bodloni'r holl feini prawf.

Roedd nifer sylweddol o ymatebwyr i adolygiad Comisiwn y Gyfraith a Phapur Gwyn Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r cynnig i sefydlu corff goruchwylio.

Ymhellach, nododd Comisiwn y Gyfraith ddiffygion yn y ddarpariaeth a wnaed gan Ddeddf 1969. Nid yw'r system bresennol yn creu dyletswydd gyffredinol i sicrhau diogelwch tomenni glo. Nid yw chwaith yn darparu pŵer i'w gwneud yn ofynnol i berchnogion tomenni wneud gwaith cynnal a chadw ataliol er mwyn atal tomen rhag mynd yn beryglus, nac yn caniatáu i awdurdodau lleol wneud gwaith o'r fath. Nid yw'n cwmpasu peryglon ac eithrio ansefydlogrwydd ac, yn hollbwysig, nid yw'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i archwilio tomenni nas defnyddir a'u gwneud yn ddiogel.

**Costau ac Arbedion**

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi costau a manteision amcangyfrifedig y cynigion ynddo.

**Mecanwaith**

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ochr yn ochr â'r Bil.

## ADRAN 2. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT CYMDEITHASOL?

### 2.1 Pobl a Chymunedau

### Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/fach), y bydd y cynnig yn effeithio ar bobl a chymunedau?

Nod craidd y Bil yw gwneud darpariaeth i atal tomenni nas defnyddir rhag bygwth lles pobl oherwydd ansefydlogrwydd, a gwneud darpariaeth at ddibenion cysylltiedig. Felly, bydd y Bil o fudd i bobl ym mhob cymuned ledled Cymru drwy leihau'r tebygolrwydd o lithriadau tomenni nas defnyddir a'r effeithiau cysylltiedig megis colli bywyd; anaf; pryderon iechyd corfforol a meddyliol tymor byr a hir; difrod i dai, ysgolion a chanolfannau iechyd; tarfu ar drafnidiaeth a chyfleustodau; llygru a dinistrio'r amgylchedd.

Bydd y gyfundrefn reoli newydd yn arbennig o fuddiol i gymunedau sydd ag anfantais economaidd-gymdeithasol, sy'n byw mewn ardaloedd mae tomenni glo nas defnyddir yn effeithio'n anghymesur arnynt, megis cymoedd y De, lle mae dros 85% o'r tomenni glo nas defnyddir yng Nghymru wedi'u lleoli a lle, yn ôl y Mynegeion Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc), maent mewn cymunedau sydd ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Roedd y dadansoddiad o'r effaith economaidd ar eiddo domestig (Atodiad 4) a nodwyd yng nghynigion y Papur Gwyn yn dangos nad oes tystiolaeth gadarn o effaith negyddol hirdymor llithriadau a llifogydd ar brisiau tai a gwerthiannau tai. Mae'r risg yn ymwneud yn bennaf â'r effaith economaidd ganfyddedig ar ryddhau lleoliadau tomenni nas defnyddir a chyflwyno cyfundrefn reoleiddiol, yn hytrach nag unrhyw effeithiau economaidd gwirioneddol.

Bydd Llywodraeth Cymru’n parhau i weithio'n agos gyda Chymdeithas Yswirwyr Prydain, y Sefydliad Yswiriant Siartredig a thanysgrifenwyr ac yn ystyried unrhyw effeithiau posibl ar brisiau tai a gwerthiannau tai.

**2.2 Hawliau Plant**

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA), ac nid oes disgwyl i'r Bil gael effaith negyddol ar hawliau plant a phobl ifanc. Disgwylir y bydd plant a phobl ifanc yn elwa ar weithredu cyfundrefn reoli effeithiol ar gyfer tomenni nas defnyddir, gan y gall gwaith monitro a chynnal a chadw leihau'r tebygolrwydd o lithriadau tomenni a'r effeithiau y gall llithriadau o'r fath eu cael ar gymunedau, yn enwedig plant a phobl ifanc sy'n byw yn agos at domenni glo nas defnyddir yng nghymoedd y De, sy'n cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r CRIA ynghlwm yn Atodiad A.

**2.3 Cydraddoldeb**

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ac nid oes disgwyl i'r Bil gael effaith negyddol ar unigolion neu grwpiau sy'n dod o fewn nodwedd warchodedig. Disgwylir i'r Bil gael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch pob dinesydd drwy leihau'r tebygolrwydd o lithriadau, ac felly'r effeithiau sy'n gysylltiedig â llithriadau megis: colli bywyd; anaf; pryderon iechyd corfforol a meddyliol tymor byr a hir; difrod i dai, ysgolion a chanolfannau iechyd; tarfu ar drafnidiaeth a chyfleustodau; llygru a dinistrio'r amgylchedd. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ynghlwm yn Atodiad B.

**2.4 Prawfesur Gwledig**

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig sy'n ystyried effeithiau'r Bil ar bobl a busnesau mewn ardaloedd gwledig. Nid oes disgwyl i'r Bil gael unrhyw effaith negyddol ar bobl neu fusnesau mewn ardaloedd gwledig. Mae'r pwerau yn y Bil yn berthnasol i bob tir, felly bydd tir gwledig yn cael ei gwmpasu gan y darpariaethau yn y Bil. Yn ogystal, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag iawndal lle mae tir wedi'i ddifrodi, lle mae eiddo wedi'i ddifrodi, ei symud neu ei waredu, neu os

oes tarfu ar fwynhad tir. Mae'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i bob tir, gan gynnwys tir gwledig. Mae'r Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig ynghlwm yn Atodiad C.

Ni chynhaliwyd Asesiad Rheoli Tir yn Gynaliadwy gan nad yw'r amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gwblhau'r Asesiad wedi'u bodloni. Pan wneir is-ddeddfwriaeth o dan bwerau yn y Bil, byddwn yn ystyried y ddyletswydd i Reoli Tir yn Gynaliadwy ac a oes angen asesiad.

### 2.5 Iechyd

### 2.5a Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/fach), y bydd y cynnig yn effeithio ar benderfynyddion iechyd?

Mae gwaith Sgrinio'r Effaith ar Iechyd wedi'i wneud a sefydlwyd nad oes angen Asesiad llawn o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer y Bil. Nid oes disgwyl i'r Bil gael effeithiau negyddol ar iechyd unigolion neu gymunedau gan fod natur ataliol y gyfundrefn newydd yn gofyn am asesiad o'r holl domenni nas defnyddir, a'i fod yn darparu ar gyfer monitro'r tomenni â sgôr uwch, gan liniaru'r tebygolrwydd o lithriadau. Nod y dull rhagweithiol hwn yw sicrhau bod cymunedau'n cael eu cadw'n ddiogel, a bod risgiau'n cael eu rheoli. Mae gwaith Sgrinio'r Effaith ar Iechyd ynghlwm yn Atodiad H.

### 2.6 Preifatrwydd

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data i asesu effaith darpariaethau'r Bil. Rhannwyd yr asesiad mewn drafft gyda swyddogion o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac mae eu hadborth wedi'i ymgorffori yn y ddogfen.

Mae'r Asesiad yn ystyried y darpariaethau yn y Bil sy'n gofyn am brosesu data personol neu a allai arwain at brosesu data personol. Aseswyd y darpariaethau perthnasol i sicrhau eu bod yn darparu sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol, a bod prosesu data personol yn angenrheidiol ac yn gymesur. Aseswyd rheidrwydd a chymesuredd gan ystyried prif amcan yr Awdurdod, fel y nodir yn adran 2 o'r Bil, er mwyn sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Bydd swyddogion yn parhau i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i sicrhau bod arferion gorau'n cael eu dilyn wrth ymgymryd â gwaith i sefydlu'r Awdurdod. Fel gyda'r asesiadau effaith eraill, mae'n ddogfen fyw a bydd yn cael ei diweddaru wrth i'r gwaith fynd rhagddo i sefydlu'r Awdurdod. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ynghlwm yn Atodiad D.

## ADRAN 3. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT DIWYLLIANNOL A'R GYMRAEG?

### 3.1 Llesiant Diwylliannol

**3.1a Sut gall y cynnig gyfrannu'n weithredol at y nod o hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth ac annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden? (ar gyfer y Gymraeg, gweler adran 3.2)**

Gall y Bil fod o fudd uniongyrchol i ddiwylliant, treftadaeth, chwaraeon a hamdden drwy leihau'r tebygolrwydd o lithriadau tomenni nas defnyddir ac felly difrod i gymunedau, yr amgylchedd a seilwaith.

Mae'r rhan fwyaf o'r tomenni glo nas defnyddir yng nghymoedd y De, mewn ardal â hanes diddorol, er enghraifft, lle mae safle Treftadaeth y Byd enwog Blaenafon wedi'i leoli. Yn ogystal, mae ardaloedd eraill o ddiddordeb diwylliannol yn denu ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn, megis Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfartha, Rheilffordd Fynydd y Bannau a busnesau sy'n diogelu hen draddodiadau Cymreig, megis Distyllfa Wisgi Penderyn.

**3.1b A yw'n bosibl y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth, neu ar allu pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden? Os felly, pa gamau y gallwch eu cymryd i osgoi neu leihau'r effaith honno (er enghraifft, drwy ddarparu cyfleoedd amgen)?**

Ni ddisgwylir i'r Bil gael effaith negyddol ar hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth, neu ar allu pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden. Mae'r Bil yn ataliol o ran natur. Bydd yn sefydlu cyfundrefn newydd sy'n rhagweithiol yn hytrach nag yn adweithiol, a fydd yn cynnwys gofynion monitro parhaus ar gyfer pob tomen nas defnyddir yn y gofrestr. Bydd y gyfundrefn newydd yn diogelu lles pobl ac, wrth wneud hynny, bydd yn diogelu cymunedau ac yn helpu i ddiogelu seilwaith critigol Cymru.

**3.2 Y Gymraeg**

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac nid oes disgwyl i'r Bil gael effaith negyddol ar y Gymraeg. Bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflawni ei fusnes cyhoeddus ac wrth gyfathrebu yng Nghymru. Bydd yr Awdurdod yn gweithredu'n unol â gofynion Safonau'r Gymraeg. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ynghlwm yn Atodiad E.

## ADRAN 4. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT ECONOMAIDD?

Mae cefnogi twf yn economi Cymru, a thrwy hynny drechu tlodi, wrth wraidd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

### 4.1 Busnes, y cyhoedd ac unigolion

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/fach), y bydd y cynnig yn effeithio ar fusnes a'r cyhoedd?**

Nod cyffredinol y Bil yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Mae'r Bil yn sefydlu'r Awdurdod ac yn gwneud darpariaeth at ddibenion cysylltiedig. Bydd yr Awdurdod yn gweithredu system gyson a chadarn o asesu, cofrestru, rheoli, monitro a goruchwylio tomenni nas defnyddir yng Nghymru.

Mae'r cynigion deddfwriaethol yn ceisio mynd i'r afael â mater etifeddiaeth o orffennol mwyngloddio Cymru. Gyda thros 85% o domenni glo nas defnyddir yng Nghymru yng nghymoedd y De, nod y cynigion yw darparu cyfundrefn reoleiddio sy'n lleihau'r tebygolrwydd o lithriadau ar y cymunedau hyn, y mae llawer ohonynt ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig gan ddefnyddio Malc. O ystyried lle mae'r rhan fwyaf o domenni glo nas defnyddir yng Nghymru, rhagwelir y bydd cyfundrefn newydd ar gyfer monitro a rheoli tomenni nas defnyddir yn cael mwy o effaith gadarnhaol ar gymunedau sydd ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Nod y Bil yw lleihau'r tebygolrwydd y bydd llithriadau yn y dyfodol yn gysylltiedig â thomenni nas defnyddir. Gall llithriadau fygwth diogelwch cymunedau a'r amgylchedd, gyda chostau atgyweirio cysylltiedig sylweddol, er enghraifft, difrod i seilwaith a busnesau. Bydd natur ataliol y Bil yn helpu i ddiogelu cymunedau a busnesau rhag llithriadau o domenni nas defnyddir. Disgwylir i natur ragweithiol y gyfundrefn newydd effeithio'n gadarnhaol ar gymunedau a busnesau (e.e. ffermydd) drwy leihau'r risgiau o lithriadau tomenni nas defnyddir a'r costau o ganlyniad i lithriad.

Y sefyllfa gyffredinol yw bod y pwerau yn y Bil yn berthnasol i bob tir, ond mae rhai eithriadau mewn perthynas â thir preswyl y Goron. Bydd yr Awdurdod yn gallu ei gwneud yn ofynnol i berchennog tir ymgymryd â gweithrediadau i atal neu ymdrin â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu sefydlogi tomen nas defnyddir er mwyn ei hatal rhag mynd yn fwy ansefydlog.

Nod cyffredinol y Bil yw diogelu lles pobl; felly, disgwylir y bydd y Bil yn cael effaith gadarnhaol ar y cyhoedd ac yn benodol ar bobl leol sy'n byw'n agos at domenni nas defnyddir. Mae amddiffyniadau i berchnogion tir wedi'u cynnwys yn y Bil, gan gynnwys darpariaethau iawndal a darpariaethau apelio.

Mae'r trothwy i'r Awdurdod ymyrryd i atal neu ymdrin â bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu i sefydlogi tomen nas defnyddir neu atal tomen nas defnyddir rhag mynd yn fwy ansefydlog yn is na'r trothwy ar gyfer ymyrryd yn y fframwaith deddfwriaethol presennol, o dan Ddeddf 1969. O dan y Bil, bydd yr Awdurdod yn gallu darparu gwybodaeth, cyngor neu gymorth. Yn ogystal, gall hefyd ddarparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol i unrhyw awdurdod datganoledig yng Nghymru.

### 4.2 Y Sector Cyhoeddus gan gynnwys llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill

**Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/fach), y bydd y cynnig yn effeithio ar y sector cyhoeddus?**

Nod y gyfundrefn newydd yw mynd i'r afael â rheolaeth doredig tomenni nas defnyddir yng Nghymru. Mae mwy na 90% o'r tomenni glo nas defnyddir sy'n peri lefel uwch o fygythiad yng nghymoedd y De, sydd eisoes yn cael eu heffeithio gan lefelau uchel o dlodi. Bydd sefydlu corff newydd i gyflwyno'r gyfundrefn newydd yn diogelu lles pobl drwy gyflwyno dull cymesur y gellir ei orfodi o fonitro a rheoli tomenni nas defnyddir yng Nghymru, er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o lithriadau pellach.

Rydym eisoes yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, megis CNC, yr Awdurdod Glo ac awdurdodau lleol. Fodd bynnag, bydd sefydlu corff newydd sy'n gyfrifol am ddiogelwch tomenni nas defnyddir yn darparu fframwaith clir i'r cyrff hyn weithio ynddo. Bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda chyrff sydd â phrofiad o archwilio a chynnal a chadw tomenni glo nas defnyddir, gan gynnwys contractau gwasanaeth. Bydd hyn yn helpu i feithrin a chryfhau cysylltiadau trawsddisgyblaethol a rhannu arferion gorau a chanllawiau.

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bydd yn ofynnol i'r Awdurdod feddwl am effaith fwy hirdymor ei benderfyniadau, gweithio'n agos gyda phobl a chymunedau, a chydweithio â chyrff eraill. Hefyd, mae'n rhaid iddo fabwysiadu'r pum ffordd o weithio i gyflawni'r nodau llesiant, ac un ohonynt yw cydweithio â chyrff cyhoeddus yn effeithiol.

Mae gennym raglen ariannu i gefnogi awdurdodau lleol i ymgymryd ag unrhyw waith cynnal a chadw a/neu waith cyfalaf. Rydym wedi ymrwymo dros £65 miliwn i awdurdodau lleol rhwng 2022-25 hefyd i wneud gwaith arferol ar domenni glo nas defnyddir cyhoeddus a phreifat. Bydd darpariaethau'r Bil yn gweithio i annog y rhai sy'n gyfrifol am domenni nas defnyddir i gyflawni eu cyfrifoldebau, ond mae hefyd yn darparu pwerau effeithiol a defnyddiadwy i gamu i'r adwy lle na all y rhai sydd â chyfrifoldeb wneud hynny neu lle maent yn gwrthod gwneud hynny.

### 4.3 Y Trydydd Sector

### Sut (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/fach), y bydd y cynnig yn effeithio ar sefydliadau'r trydydd sector a'r hyn maent yn ei wneud?

Ni ragwelir y bydd y Bil yn effeithio'n negyddol ar y trydydd sector ond, gan mai prif ddiben y Bil yw atal tomenni nas defnyddir rhag bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd, mae manteision y gyfundrefn newydd, fel y'i sefydlwyd gan y Bil, yn gyffredinol. Disgwylir i natur ragweithiol y gyfundrefn newydd gael effaith gadarnhaol drwy leihau'r risgiau o lithriadau tomenni nas defnyddir a'r costau o ganlyniad i lithriad.

Y sefyllfa gyffredinol yw bod y darpariaethau yn y Bil yn berthnasol i bob tir, gyda rhai eithriadau o ran tir preswyl y Goron. Ar hyn o bryd, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw berchnogaeth sylweddol ar domenni nas defnyddir gan sefydliadau'r trydydd

sector. Nid yw hynny'n golygu na allai hyn newid yn y dyfodol. Bydd yr Awdurdod yn gallu darparu gwybodaeth a chyngor i unrhyw berson mewn perthynas â thomenni nas defnyddir, ac mae'r Bil yn cynnwys yr hawl i apelio mewn rhai achosion, er enghraifft, mewn perthynas â hysbysiad a roddir gan yr Awdurdod sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog tir ymgymryd â gweithrediadau, neu mewn perthynas â gorchymyn cyfrannu. Yn ogystal, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag iawndal lle mae tir wedi'i ddifrodi, lle mae eiddo wedi'i ddifrodi, ei symud neu ei waredu, neu os oes tarfu ar fwynhad tir.

### 4.4 Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder

Rydym wedi ystyried effeithiau'r Bil ar y system gyfiawnder. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, a nododd mai effaith fach y bydd y Bil yn ei chael ar y system gyfiawnder. Mae Adran yr Arglwydd Brif Ustus wedi cael gwybod hefyd am yr effaith y rhagwelir y bydd y Bil yn ei chael ar y system gyfiawnder. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder ynghlwm yn Atodiad I.

## ADRAN 5. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT AMGYLCHEDDOL?

### 5.1 Adnoddau Naturiol

#### 5.1a Sut bydd y cynnig yn cyflawni un neu fwy o'r Blaenoriaethau Cenedlaethol yn y Polisi Adnoddau Naturiol (NRP)?

Bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â deddfwriaeth a pholisi presennol, sy'n cynnwys Polisi Adnoddau Naturiol (NRP) Llywodraeth Cymru. Mae NRP yn nodi prif egwyddorion dull Llywodraeth Cymru o gyflawni 'Ffyniant i Bawb - y strategaeth genedlaethol' ac ymrwymiadau rhyngwladol Cymru.

Un o'r heriau allweddol mae'r NRP yn mynd i'r afael â nhw yw'r her i wella gwydnwch ecosystemau drwy wella eu hamodau, drwy leihau'r pwysau arnynt a thrwy adeiladu rhwydweithiau ecolegol.

Un o ganlyniadau posibl y gyfundrefn newydd yw lleihau'r pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd drwy fonitro a rheoli tomenni nas defnyddir yn briodol. Ar ben hynny, nod y gyfundrefn yw lleihau'r tebygolrwydd o fethiannau tomenni nas defnyddir a allai arwain at leihau effeithiau a welir ar ecosystemau.

#### 5.1b A yw’r cynnig yn helpu i fynd i’r afael â’r heriau a’r cyfleoedd cenedlaethol canlynol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

Mae'r gyfundrefn newydd yn debygol o helpu i amddiffyn cynefinoedd presennol a chefnogi cynnal a chadw a gwella rhwydweithiau ecolegol gwydn yn unol â dyletswyddau statudol ar yr Awdurdod ac yng nghyd-destun polisi cenedlaethol ar y materion hyn, drwy leihau'r tebygolrwydd o ansefydlogrwydd tomenni nas defnyddir a sefydlu gwell arferion rheoli tir.

Yn ogystal, gallai fod manteision bioamrywiaeth atodol ehangach eraill o ran gwella rheolaeth safleoedd tomenni nas defnyddir (e.e. lleihau erydu pridd, atal llygredd ac annog sefydlu llystyfiant).

### 5.2 Bioamrywiaeth

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth ar effeithiau'r Bil ac rydym yn fodlon bod effeithiau posibl ar fioamrywiaeth wedi'u hystyried a'u lliniaru neu eu hosgoi'n sylweddol. Nod y Bil yw lleihau'r tebygolrwydd o fethiannau tomenni nas defnyddir yn y dyfodol ac, o ganlyniad, leihau effeithiau negyddol cysylltiedig ar fioamrywiaeth ac ecosystemau tomenni Cymru. Rhaid i'r Awdurdod, fel awdurdod cyhoeddus o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â Chymru ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau, i’r graddau y bo hynny’n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny’n briodol. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth ynghlwm yn Atodiad F.

### 5.3 Y Newid yn yr Hinsawdd

Rydym wedi penderfynu nad oes angen Asesiad llawn o'r Effaith ar y Newid yn yr Hinsawdd. Fodd bynnag, bydd y Bil yn cael effaith gadarnhaol ar ein parodrwydd ar gyfer y newid yn yr hinsawdd a'r risgiau cysylltiedig.

Mae tystiolaeth gref sy'n cysylltu effeithiau'r newid yn yr hinsawdd â'n hamgylchedd, cymunedau, iechyd a lles a seilwaith. Mae hyn yn hynod berthnasol ar gyfer rheoli tomenni nas defnyddir, gan y gallai cynnydd mewn stormydd a dwyster glaw oherwydd hinsawdd sy'n newid gynyddu'r pwysau ar nodweddion peirianyddol tomenni nas defnyddir, sy'n hanfodol i gynnal eu cyfanrwydd.

Mae nifer o lithriadau tomenni glo, megis yr un yn Tylorstown, wedi'u hachosi gan gynnydd mewn glawiad sy'n effeithio ar y systemau draenio peirianyddol, ac nid oedd rhai o'r systemau hyn wedi'u dylunio i ymdopi â'r lefelau presennol na'r lefelau a ragwelir o lawiad.

Mae'r State of UK Climate Report (Gorffennaf 2024) wedi dangos yn ddiweddar fod glawiad y DU wedi cynyddu ychydig yn ystod y degawdau diwethaf.

Yn 2021, cydnabu Asesiad Risg Newid Hinsawdd annibynnol Cymru (CCRA3) y potensial i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd gynyddu'r risg o lithriadau ac ymsuddiant yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau mwyngloddio hanesyddol. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd megis:

- Risgiau i briddoedd o amodau hinsoddol newidiol, gan gynnwys sychder tymhorol a gwlybaniaeth (o dan yr Amgylchedd Naturiol ac Asedau N4);
- Risgiau i rwydweithiau trafnidiaeth o fethiant llethr ac arglawdd (o dan Seilwaith I5);
- Risgiau i adeiladwaith adeiladau (o dan Iechyd, Cymunedau a'r Amgylchedd Adeiledig H5);
- Risgiau i wasanaethau addysg a charchardai (o dan Iechyd, Cymunedau a'r Amgylchedd Adeiledig H13).

Prif ddiben y Bil yw atal tomenni nas defnyddir rhag bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Bydd y Bil yn cyflawni hyn drwy sefydlu cyfundrefn ar gyfer asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni nas defnyddir. Ni fydd y darpariaethau yn y Bil yn cael effaith uniongyrchol ar y newid yn yr hinsawdd, ond rydym wedi ystyried y newid yn yr hinsawdd wrth ddatblygu darpariaethau'r Bil.

Mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r angen am gynlluniau cryfach i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd ac i ddatblygu cyfuniadau o addasiadau sy'n gallu ymateb i'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r Bil yn ataliol o ran natur. Bydd y Bil yn sefydlu cyfundrefn newydd sy'n rhagweithiol yn hytrach nag yn adweithiol, a fydd yn cynnwys gofynion monitro parhaus ar gyfer pob tomen nas defnyddir yn y gofrestr, a bydd yn rhoi pwerau i'r Awdurdod sicrhau bod tomenni nas defnyddir yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol, er mwyn mynd i'r afael ag ansefydlogrwydd tomenni a bygythiadau i ansefydlogrwydd tomenni.

### 5.3a Carbon

Rydym wedi penderfynu nad oes angen Asesiad llawn o'r Effaith ar Garbon (Cam 2) gan na fydd y Bil yn effeithio ar y broses bresennol ar gyfer ymdrin â symudiad glo ar domenni glo, sy'n golygu, yn yr achosion hynny lle mae angen i berchnogion wneud cais am ganiatâd cynllunio, y bydd polisïau presennol Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn berthnasol e.e. datganiad polisi glo.

Yn ogystal, ni fydd y Bil yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd angen symud tomenni glo nas defnyddir (os bydd mwy o symudiad yn golygu mwy o risg o losgi). Mae cyfundrefn reoli effeithiol yn gallu cyfrannu at leihau achosion lle mae tomenni nas defnyddir yn profi dirywiad sylweddol, gan leihau'r costau adfer gan fod arolygiadau a gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn helpu i nodi unrhyw broblemau a mynd i'r afael â nhw cyn gynted â phosibl, a thrwy hynny leihau'r angen am waith drutach a mwy helaeth ar ôl llithriad tomen nas defnyddir.

Yn olaf, nid yw gwaith adfer tomen wedi'i gynnwys yn y Bil, sy'n golygu nad yw'r Bil yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â symudiad a risg o lo yn llosgi.

### 5.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

Rydym wedi penderfynu nad oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol ar y cam hwn o'r broses gan fod AASau yn berthnasol i gynlluniau a rhaglenni. Felly, efallai y bydd angen AAS unwaith y bydd yr Awdurdod wedi'i sefydlu ac yn arfer ei swyddogaethau.

### 5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

Rydym wedi dod i'r casgliad nad oes angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) ar y cam hwn o'r broses gan fod HRAs yn berthnasol i gynlluniau a rhaglenni. Felly, efallai y bydd angen HRA unwaith y bydd yr Awdurdod wedi'i sefydlu ac yn arfer ei swyddogaethau.

### 5.6 Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol (AEA)

Rydym wedi dod i'r casgliad nad oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol arnom, ac nid oes angen i ni ddrafftio unrhyw ddarpariaethau newydd ar gyfer y Bil sy'n ymwneud â'r broses AEA.

## ADRAN 6. Y DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL - BETH FYDD YR EFFAITH AR ANFANTAIS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL?

### 6.1 Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Rydym wedi cynnal Asesiad o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, ac nid oes disgwyl i'r Bil effeithio'n negyddol ar anghydraddoldeb presennol y canlyniad a brofir o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r cynigion deddfwriaethol yn ceisio mynd i'r afael â'r ôl-effeithiau o orffennol diwydiannol Cymru. Gyda thros 85% o domenni glo nas defnyddir yng Nghymru yng nghymoedd y De, nod y cynigion yw darparu cyfundrefn reoleiddio sy'n lleihau'r tebygolrwydd o lithriadau ar y cymunedau hyn, y mae llawer ohonynt ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig gan ddefnyddio Malc. O ystyried lle mae'r rhan fwyaf o domenni glo nas defnyddir yng Nghymru, rhagwelir y bydd cyfundrefn newydd ar gyfer monitro a rheoli tomenni nas defnyddir yn cael mwy o effaith gadarnhaol ar gymunedau sydd ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r Asesiad o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ynghlwm yn Atodiad G.

## ADRAN 7. COFNOD O’R ASESIADAU EFFAITH LLAWN SY’N OFYNNOL

Rydych wedi penderfynu erbyn hyn pa feysydd sydd angen asesiad effaith manylach. Rhestrwch nhw isod.

| **Asesiad Effaith** | **Oes / Nac oes** | **Os oes, dylech** |
|---|---|---|
| Hawliau plant | Oes | Cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn Atodiad A |
| Cydraddoldeb | Oes* | Cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad B |
| Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol | Oes | Cwblhau'r Asesiad o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn Atodiad G |
| Prawfesur Gwledig | Oes | Cwblhau'r Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig yn Atodiad C |
| Iechyd | Oes | Cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Lefel Uchel, Atodiad |
| Preifatrwydd | Oes | Cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn Atodiad D |
| Y Gymraeg | Oes | Cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn Atodiad E |
| Economaidd / Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Nac oes | |
| Cyfiawnder | Oes | Atodiad I |
| Bioamrywiaeth | Oes* | Cwblhau'r  Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth yn Atodiad F |
| Y Newid yn yr Hinsawdd | Nac oes | |

| | | |
|---|---|---|
| Asesiad Amgylcheddol Strategol | Nac oes | |
| Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Nac oes | |
| Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol | Nac oes | |

* Mae’r asesiadau hyn yn orfodol ar gyfer pob cynnig er mwyn bodloni rhwymedigaethau statudol.


**ADRAN 8. CASGLIAD**

**Sut mae pobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi cyfrannu at y gwaith o'i ddatblygu?**

8.1 Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion y Bil yn y Papur Gwyn ar *Fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer tomenni glo nas defnyddir yng Nghymru*. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 12 Mai a 4 Awst 2022 gyda chefnogaeth cynllun ymgynghori cynhwysfawr, a derbyniwyd cyfanswm o 44 o ymatebion, gan gynnwys gan unigolion preifat, sefydliadau amrywiol, cynrychiolwyr etholedig, academyddion ac awdurdodau lleol. Cyn yr ymgynghoriad hwn, ymgynghorodd Comisiwn y Gyfraith yn helaeth ar ei gynigion, ac mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol drwy gydol y broses o ddatblygu'r Bil.

Ymgynghorwyd â'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynigion mewn sawl ffordd:


- Cyrhaeddodd ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ystod eang o randdeiliaid
  **Siart 1 - Sectorau**




Ffynhonnell: Dadansoddiad o Ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith

- Cafodd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 44 o ymatebion, 40 o Gymru a 4 o Loegr.

Chart 2 – Number of responses by respondent category




Ffynhonnell: Crynodeb o ymatebion Llywodraeth Cymru i'r Papur Gwyn.

Ym mis Tachwedd 2023, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru y data ar domenni glo nas defnyddir categori C a D i'r parth cyhoeddus, drwy Fap Data Cymru. Yn dilyn cyhoeddi lleoliad y tomenni glo nas defnyddir categori C a D yng Nghymru, cynhaliwyd cyfres o sesiynau rhannu gwybodaeth ar gyfer partïon yr effeithir arnynt gan leoliadau'r tomenni ledled Cymru.

Archebodd **56** o bobl le yn y sesiynau drwy'r broses gofrestru.

**Tabl 1 – dadansoddiad yn ôl ALl**

| **Dadansoddiad yn ôl ALl:** | |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 18 |
| Caerffili | 6 |
| Caerdydd | 3 |
| Abertawe | 2 |
| Merthyr Tudful | 5 |
| Castell-nedd Port Talbot | 3 |

**Tabl 2 – Dadansoddiad yn ôl sesiwn**

| **Dadansoddiad yn ôl sesiwn:** | |
|---|---|
| Sesiynau ar-lein | 43 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2 |
| Merthyr Tudful | 3 |
| Caerffili | 5 |
| Pontypridd | 1 |
| Pont-y-pŵl | 2 |

| | |
|---|---|
| Rhondda Cynon Taf | 14 |
| Torfaen | 1 |
| Ddim yn berthnasol | 4 |

- Cynhaliwyd ymgyrch hysbysebu ar Facebook i godi ymwybyddiaeth o'r digwyddiadau, ac arweiniodd yr ymgyrch at 6,404 o gliciau ar y ddolen i wefan www.gov.wales/find-disused-coal-tips. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgysylltiad gan grwpiau oedran hŷn, gyda 54% o'r ymatebion gan y grŵp oedran 55 oed a hŷn.

- Comisiynodd Llywodraeth Cymru Plant yng Nghymru i gynnal digwyddiadau ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc 14-16 oed.

**8.2 Beth yw’r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

**<u>Effeithiau cadarnhaol</u>**

Mae'r Bil yn ataliol o ran natur. Bydd yn sefydlu cyfundrefn newydd sy'n rhagweithiol yn hytrach nag yn adweithiol, a fydd yn cynnwys gofynion monitro parhaus ar gyfer pob tomen nas defnyddir yn y gofrestr, a bydd yn rhoi pwerau i'r Awdurdod sicrhau bod tomenni nas defnyddir yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol, er mwyn mynd i'r afael ag ansefydlogrwydd tomenni a bygythiadau i ansefydlogrwydd tomenni.

Mae llithriadau yn gallu cael effaith drychinebus, gan gynnwys marwolaethau posibl, anafiadau, difrod i'r amgylchedd a seilwaith allweddol, yr effaith gysylltiedig ar gymunedau a'r gost sylweddol o atgyweirio'r difrod. Bydd cyflwyno cyfundrefn reoli effeithiol yn cyfrannu at leihau costau adfer yn sylweddol gan fod archwiliadau a gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn helpu i nodi unrhyw broblemau a mynd i'r afael â nhw cyn gynted â phosibl, a thrwy hynny leihau'r angen am waith drutach os yw tomen yn llithro.

Bydd y Bil yn sefydlu'r Awdurdod. Prif amcan yr Awdurdod yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Bydd y gyfundrefn reoli newydd a weithredir gan yr Awdurdod yn cael effaith gadarnhaol ar atal llithriadau tomenni nas defnyddir, a all fygwth diogelwch cymunedau a'r amgylchedd ac osgoi'r costau sylweddol cysylltiedig o atgyweirio difrod posibl i gymunedau, seilwaith a'r amgylchedd.

Bydd yr Awdurdod yn helpu i wella datblygiad arbenigedd a sgiliau arbenigol ar draws sawl maes gwahanol yn y maes hwn, sydd wedi gweld dirywiad yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd y dirywiad yn y diwydiant glo. Mae ffactorau eraill sydd wedi effeithio ar y diffyg arbenigedd yn y maes hwn yn cynnwys ymddeoliadau a chyfyngiadau cyllid.

Mae'r Bil yn cyflwyno system gofrestru ac asesu risg gynhwysfawr sy'n seiliedig ar risg ar gyfer tomenni; yn gwneud darpariaeth ar gyfer monitro ac archwilio, gan roi'r pŵer i'r Awdurdod ei gwneud yn ofynnol i dirfeddianwyr gyflawni gwaith i fynd i'r afael ag unrhyw risg i sefydlogrwydd tomen, a phwerau i'r Awdurdod wneud gwaith ei hun, gan gynnwys gwaith sydd angen ei wneud ar frys i sicrhau sefydlogrwydd tomen. Mae hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â phwerau mynediad a'r gallu i adennill treuliau penodol gan dirfeddianwyr.

Drwy gyflwyno'r Bil, rydym hefyd yn ceisio cynyddu ein cyfraniad at egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Bil yn mabwysiadu’r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd.

1. **Cymru lewyrchus**

Bydd yr Awdurdod yn creu cyfleoedd cyflogaeth oherwydd y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gyfundrefn newydd. Bydd y gyfundrefn newydd yn cefnogi datblygiad hirdymor arbenigedd yn y maes hwn. Bydd manteision ariannol i atal mwy o lithriadau tomenni nas defnyddir, a fydd yn arbed ar gostau sylweddol glanhau ac adfer.

2. **Cymru gydnerth**

Bydd gwelliannau i'r gwaith o fonitro a rheoli tomenni nas defnyddir yn cael effaith uniongyrchol, gadarnhaol a sylweddol, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, ar ein hamgylchedd. Bydd y gyfundrefn newydd yn cyfrannu at gynyddu hyder cymuned mewn perthynas â sefydlogrwydd tymor hwy tomenni cyfagos nas defnyddir, gan arwain o bosibl at fwy o barodrwydd i sefydlu busnes newydd, neu i fuddsoddi yn y tir ei hun at ddefnydd mwy cynhyrchiol. Bydd trawsnewid y gyfundrefn ar gyfer rheoli tomenni nas defnyddir yn diogelu ein cymunedau. Mae hon yn gyfundrefn ataliol sydd â’r nod o fod yn ddigon hyblyg i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac ymateb iddynt.

3. **Cymru iachach**

Bydd y gyfundrefn yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd, a bydd yn lleihau'r tebygolrwydd o lithriadau sy'n cael effaith negyddol ar iechyd meddwl. Mae natur ataliol y gyfundrefn newydd yn darparu ar gyfer monitro ac archwilio tomenni nas defnyddir, gan liniaru'r effaith ar iechyd meddwl y gallai unrhyw ddigwyddiadau ei chael. Bydd y dull rhagweithiol hwn yn helpu i gadw cymunedau'n ddiogel, gan y bydd risgiau'n cael eu rheoli i atal y tebygolrwydd o lithriadau yn y dyfodol.

Mae llawer o gymunedau, yn enwedig yng nghymoedd y De, yn byw yng nghysgod ffisegol a seicolegol tomenni nas defnyddir. Gyda thros 85% o domenni glo nas defnyddir yng Nghymru wedi'u lleoli yng nghymoedd y De, bydd y Bil yn cael mwy o effaith gadarnhaol ar gymunedau sydd ag anfantais economaidd-gymdeithasol, gan fod y cymunedau hyn yn byw mewn ardaloedd y mae tomenni glo nas defnyddir yn effeithio'n anghymesur arnynt.

Roedd llithriad Tylorstown yn arwydd rhybudd o'r risgiau posibl y gall tomenni nas defnyddir eu peri i les pobl os na roddir cyfundrefn ataliol o archwiliadau a chynnal a chadw ar waith. Dylai hyn liniaru'r effaith ar iechyd meddwl, gan dawelu meddyliau cymunedau fod tomenni nas defnyddir yn cael eu monitro a'u rheoli'n briodol.

4. **Cymru sy'n fwy cyfartal**

Bwriad y polisi yw y bydd yr Awdurdod yn cael ei ychwanegu at Atodlen 19 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan ei wneud yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan adran 149(1). Nid oes disgwyl i'r Bil gael unrhyw effeithiau negyddol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

5. **Cymru o gymunedau cydlynus**

Bydd y gyfundrefn reoli newydd yn cyfrannu at gymunedau mwy diogel drwy leihau'r tebygolrwydd o lithriadau a pheryglon eraill sy'n gysylltiedig â thomenni nas defnyddir. O'r herwydd, bydd tomenni nas defnyddir a reolir yn fwy effeithiol yn cyfrannu at yr amcan llesiant 'gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt'.

6. **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

O ran y Gymraeg, nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol uniongyrchol o ganlyniad i'r Bil. Mae rhai tomenni nas defnyddir wedi'u lleoli mewn safleoedd treftadaeth neu'n agos atynt, a bydd y Bil yn sicrhau bod tomenni nas defnyddir yn cael eu monitro, eu hasesu a'u rheoli mewn ffordd briodol a chadarn. Bydd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd o lithriadau tomenni yn y dyfodol, a thrwy hynny leihau unrhyw effeithiau negyddol ar gymunedau (gan gynnwys cymunedau Cymraeg) a seilwaith a allai fod yn agos at unrhyw domenni nas defnyddir.

7. **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

Mae'n werth nodi y bydd lleihau'r tebygolrwydd o lithriadau tomenni nas defnyddir yn lleihau'r angen i gludo malurion llithriadau hefyd, a all effeithio'n negyddol ar allyriadau byd-eang, a bydd hyn o fudd i'r amgylchedd.

**<u>Effeithiau negyddol</u>**

Mae'r Bil yn ataliol o ran natur. Bydd yn sefydlu cyfundrefn newydd sy'n rhagweithiol yn hytrach nag yn adweithiol, a fydd yn cynnwys gofynion monitro parhaus ar gyfer pob tomen nas defnyddir ar y gofrestr, a bydd yn rhoi pwerau i'r Awdurdod sicrhau bod tomenni nas defnyddir yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol, er mwyn mynd i'r afael ag ansefydlogrwydd tomenni a bygythiadau i sefydlogrwydd tomenni. Gall effaith llithriadau fod yn drychinebus gyda marwolaethau posibl, fel yn achos y trychineb trasig yn y De ym mis Hydref 1966, pan wnaeth llithriad tomen lo amlyncu rhes o dai ac ysgol, gan ladd 28 oedolyn a 116 o blant.

Cynhaliwyd yr holl asesiadau perthnasol, ynghyd ag ymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid allweddol, megis yr Awdurdod Glo, CNC ac awdurdodau lleol yn ystod y broses o ddatblygu'r Bil. Nid ydym yn disgwyl unrhyw effeithiau negyddol sylweddol o ganlyniad i'r Bil. Mae ymchwil yn dangos sut mae ein hinsawdd yn parhau i

gynhesu, ac mae gan effeithiau hyn ar domenni nas defnyddir y potensial i fod yn sylweddol. Gallai cynnydd mewn stormydd a dwyster glaw oherwydd hinsawdd sy'n newid gynyddu'r pwysau ar nodweddion peirianyddol tomenni nas defnyddir, sy'n hanfodol bwysig i gynnal eu cyfanrwydd. Felly, ni allwn warantu na fydd llithriadau'n digwydd yn y dyfodol, ond nod y mesurau ataliol yn y Bil yw ymyrryd yn gynharach i nodi risg bosibl yn gynt o lawer, a rhoi mesurau ataliol ar waith i leihau'r tebygolrwydd o lithriad. Rydym wedi nodi rhai meysydd a allai arwain at rai pryderon, ac fe'u hamlinellir isod.

**Recriwtio**

Dros y degawdau diwethaf, bu colli arbenigedd o ran gweithgareddau mwyngloddio a thomenni nas defnyddir oherwydd i'r diwydiant pyllau glo ddod i ben yng Nghymru, a ffactorau eraill megis ymddeoliadau a chyfyngiadau cyllid. Mae'n debygol y bydd recriwtio staff ar gyfer yr Awdurdod yn denu diddordeb gan weithlu arbenigol bach, y mae rhai ohonynt yn cael eu cyflogi gan yr Awdurdod Glo ac awdurdodau lleol.

Yn y tymor byr, gallai hyn gael effaith negyddol ar yr Awdurdod Glo ac awdurdodau lleol gan y gallent golli rhai staff profiadol a chymwys i'r Awdurdod. Gallai hyn olygu prinder staff oherwydd heriau recriwtio mewn rhai meysydd arbenigol. Fodd bynnag, yn y tymor hir, gallai hyn fod yn gyfle i brifysgolion, colegau a chyrff hyfforddi ddatblygu a/neu ehangu cyfleoedd hyfforddi/dysgu i lenwi bylchau yn y sector, er enghraifft, cynllun prentisiaeth. Yn ogystal, bydd yr Awdurdod yn gallu meithrin a datblygu sgiliau technegol, a fydd yn helpu i sicrhau cysondeb a dilyniant gyrfa cliriach i staff. Gallai hefyd helpu i greu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad gyda rhai diwydiannau, megis technoleg, y gellir eu defnyddio yn y gyfundrefn newydd.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut fydd y cynnig: yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**

- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, bydd yn ofynnol i'r Awdurdod feddwl am effaith tymor hwy ei benderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau, a chydweithio â chyrff eraill. Hefyd, mae'n rhaid iddo fabwysiadu'r pum ffordd o weithio i gyflawni'r nodau llesiant, ac un ohonynt yw cydweithio â chyrff cyhoeddus i weithio'n effeithiol.

Bydd yr Awdurdod yn dysgu o brofiad yr Awdurdod Glo sydd, ers 2020, wedi bod yn cynnal archwiliadau o holl sgoriau dros dro tomenni categori C a D ac yn casglu data ar leoliad, statws a pherchnogaeth tomenni glo nas defnyddir.

Bydd yr Awdurdod yn darparu swyddogaeth gynghori er mwyn annog pobl, er enghraifft, perchnogion tomenni nas defnyddir, i gyflawni eu cyfrifoldebau, neu i helpu gyda materion sy'n codi mewn perthynas â thomen nas defnyddir.

Bydd yn bwysig i'r Awdurdod feithrin cysylltiadau â pherchenogion tir, a chynnal trafodaethau gyda nhw, cyn cyflwyno hysbysiadau. Bydd hyn yn rhoi cyfle i

dirfeddianwyr drafod y gwaith disgwyliedig gyda'r Awdurdod, yn enwedig os nad oes ganddynt y gallu technegol nac ymarferol, neu'r modd ariannol, i ymgymryd â'r gwaith a ddisgwylir gan yr Awdurdod.

Mae Gweinidogion Cymru'n bwriadu cyhoeddi canllawiau i'r Awdurdod ar sawl maes, gan gynnwys archwiliadau a gwaith monitro, apeliadau, iawndal a chodi tâl. Wrth ddatblygu'r canllawiau, bydd yr holl ymgysylltu ac ymgynghori priodol yn cael ei gynnal gyda rhanddeiliaid. Bydd adran 69 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i ganllawiau o'r fath wrth arfer ei swyddogaethau.

**8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Mae gan yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gynigion manwl ar adolygu ar ôl gweithredu, gwerthuso a monitro parhaus, y mae rhai ohonynt wedi'u hamlinellu isod.

Rhagwelir y bydd adolygiad ôl-weithredu cychwynnol yn cael ei gynnal tua 5 mlynedd ar ôl i'r gyfundrefn ddod i rym, a fyddai'n 7 mlynedd ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Erbyn hynny byddai'r mwyafrif helaeth o domenni glo nas defnyddir wedi cael eu hasesu'n llawn a, lle'n briodol, eu hychwanegu at y gofrestr a byddai'r adolygiad yn cael ei gynnal ar yr adeg pan fyddai tomenni nad ydynt yn domenni glo yn dechrau cael eu hystyried.

Byddai adolygiad o'r fath yn debygol o ystyried effeithiolrwydd y gyfundrefn, gan gynnwys y canllawiau a fydd wedi'u cyhoeddi, yn ogystal ag effeithiolrwydd yr Awdurdod.

Bydd gwerthusiad parhaus yn bosibl hefyd drwy'r rhwymedigaethau statudol ar yr Awdurdod a nodir yn y Bil sef:

- llunio cynllun corfforaethol o sut mae'n bwriadu cyflawni ei swyddogaethau yn ystod pob cyfnod cynllunio tair blynedd a gosod copi gerbron y Senedd;
- paratoi adroddiadau blynyddol a gosod copi gerbron y Senedd; a
- pharatoi datganiad o gyfrifon yn flynyddol.

Dylai gwerthusiad parhaus ystyried cadernid y gyfundrefn fonitro. Gallai hyn gynnwys adolygiad o ryngweithio â chyfundrefnau amgylcheddol eraill, yn ogystal ag effeithiolrwydd cysylltiadau gwaith â chyrff statudol cyfundrefnau cysylltiedig.

Rydym yn disgwyl i'r adolygiad ôl-weithredol ystyried hefyd y dull y dylid ei ddefnyddio mewn perthynas â thomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo, a fydd wedi dechrau mapio erbyn hynny. Bydd hyn yn cael ei lywio drwy ddysgu o'r ystad lo ac yn caniatáu i'r Awdurdod fireinio ei ddull o weithredu.

Bydd asesiadau effaith pellach yn cael eu cynnal fel y bo'n briodol maes o law pan wneir is-ddeddfwriaeth o dan bwerau yn y Bil. Bydd ymgynghoriad yn digwydd mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth a bydd yn gymesur ac yn briodol i natur y rheoliadau sy'n cael eu cynnig. Bydd ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig, lle bo hynny'n briodol, yn cael ei wneud tra bo'r polisi'n

cael ei ddatblygu. Bydd yn haws i'r effeithiau gael eu rhagweld gan y rhanddeiliaid hynny ar y cam hwnnw pan fydd ystyriaethau polisi penodol yn cael eu drafftio.

## ADRAN 9. DATGANIAD

### Datganiad

Rwy’n fodlon bod effaith y camau gweithredu arfaethedig wedi cael ei hasesu a’i chofnodi’n ddigonol.

Enw’r Uwch Swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr:

Chris Jones

Adran:

Newid Hinsawdd a Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Dyddiad: Medi 2024